

Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Wedi'i ariannu trwy raglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Gwasanaeth Cynghori dan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 -2020.

Robb Merchant

Ffrainc

Gwinwyddaeth

Ebrill 2018

1 Cefndir

Dewisais ymweld â rhanbarth Loire yn Ffrainc gan fy mod eisiau ymweld â chynhyrchwyr gwin llai yn bennaf.

Prynodd fy ngwraig a minnau dyddyn 12 erw ym 1993 ac fe wnaethom ni ychwanegu 5 erw at y daliad yn 2008. Plannwyd Gwinllan White Castle Vineyard yn 2009. Roeddem ni'n hollol newydd i'r sector gwinwyddaeth ac roedd ein prif swyddi tu allan i fyd amaeth. Mae amaethyddiaeth wedi bod yn rhan o fy mywyd erioed a dyna oedd fy swydd yn ystod blynyddoedd cynnar fy ngyrfa.

Mae'r winllan yn cynnwys 4,500 gwinwydd o'r mathau canlynol: -

- Coch: Pinot Noir, Regent & Rondo
- Gwyn: Phoenix, Seyval Blanc & Siegerrebe

Mae'r grawnwin yma'n cael eu defnyddio i gynhyrchu gwinoedd clodfawr PDO/PGI gwyn, coch a phefriog.

Prif amcanion y daith gyfnewid oedd:

1. Dysgu beth mae'r cynhyrchwyr bychain yn ei wneud yn y gwinllannoedd i gynnal a chynyddu ansawdd eu grawnwin a'u gwinoedd.
2. Gweld sut mae gwindai bychain yn gweithredu fel busnes unigol neu o fewn mentrau cydweithredol fel model busnes amgen.
3. Gwireddu uchelgais a datblygu busnes White Castle Vineyard.

Byddai'r daith gyfnewid yn cynnig cyfle i ddysgu am yr ystyriaethau ehangach, nid yn unig ar gyfer gwinwyddaeth o'r radd flaenaf, ond hefyd gwneud gwin a chymysgu ar raddfa fechan o fewn ardal ddaearyddol benodol. Byddai partneriaid y gyfnewidfa yn darparu modelau busnes a fyddai'n gallu fy nghynorthwyo i ddatblygu fy musnes mewn modd proffidiol a chynaliadwy sy'n cael ei arwain gan ansawdd. Mae trosglwyddo gwybodaeth o'r math hwn yn hanfodol, nid yn unig ar gyfer

datblygu fy musnes, ond hefyd ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor y diwydiant Gwin yng Nghymru.

Yn dilyn fy nhaith gyfnewid, byddaf yn gallu cynllunio twf a datblygiad Gwinllan White Castle Vineyard fel tyfwr grawnwin a chynhyrhydd gwin. Bydd hefyd yn fy nghynorthwyo o ddeall y broses o wneud gwin a'r ystyriaethau cymhleth yn ymwneud â rheoli costau. Yn ogystal, bydd yn creu pwyntiau cyswllt o fewn yr UE a fydd yn ddefnyddiol wrth i ni dyfu a datblygu'r diwydiant gwinwyddaeth a gwin yng Nghymru.

2 Amserlen


Rhannwyd yr ymweliad yn ddau, gyda'r cyntaf ym mis Chwefror i fynychu Sioe Win Loire. Mae'r digwyddiad deuddydd hwn ar gyfer y Diwydiant a'r Wasg yn bennaf, ac mae dros 300 yn arddangos eu gwinoedd a'u busnesau. Defnyddiais restr o'r gwinllannoedd a oedd yn mynychu i ddewis y gwinllannoedd a'r gwindai i ymweld â nhw. Roeddwn i hefyd wedi cael ambell i argymhelliad gan newyddiadurwr gwin a chyn-brynwr gwin. Credaf fod ymweld â'r sioe wedi dangos i berchnogion y winllan fod fy nghais i dreulio diwrnod gyda phob un ohonynt ym mis Ebrill yn ymrwymiad gwirioneddol i ddysgu.

Fy mwrriad oedd ymweld â chynhyrchwyr bychain gyda 2-4 hectar, ond ychydig iawn o'r rhain sy'n bodoli ym musnes tyfu grawnwin masnachol yn rhanbarth Loire, felly fe wnes i ymweld â chroestoriad o winllannoedd yn amrywio o 10-250 hectar, ac roedd pob diwrnod yn cael ei rannu rhwng ymweld â'r winllan ac yna'r gwindy.

Y prif bwytiau a ddysgwyd yn y gwinllannoedd oedd plannu'r gwinwydd. Roedd y pellter rhwng y gwinwydd yn y rhes yn cael ei bennu gan fywiogrwydd y rhywogaeth. Roedd pellter yn amrywio o 600mm i 1.2m a defnyddiwyd system docio Guyot. Mae'n system sy'n caniatáu pob gwinwydd i gynhyrchu cyfanswm tebyg o rawnwin sy'n aeddfedu'n rhwyddach ac yn cynnwys mwy o siwgr wrth gynaeafu."

Roedd ymweliad ag un winllan yn benodol yn ddiddorol iawn gan fy mod wedi cael cyfle i weld sut maen nhw'n defnyddio technoleg canfod gwres i dargedu'r defnydd o lyffosad i'r chwyn, yn hytrach na chwistrellu'r chwynladdwr yn eang.

Roedd y gwersi a ddysgwyd o'r gweithrediadau gwindy yn amrywiol. Mae defnyddio casgen barrique Derw yn rhan bwysig o'r broses o gynhyrchu gwin coch ac mae gwindai yn newid o'r model 225ltr traddodiadol i 440ltr gan eu bod yn dal i ryddhau'r blas ond heb fod mor llethol gyda gwin ysgafnach. Mae defnyddio labordy yn Sancerre yn allweddol wrth i'r cyfnod cynaeafu nesáu, ac mae dadansoddiad yn cael ei wneud ar y grawnwin i sicrhau aeddfedrwydd a lliw'r sudd, croen a'r hadau, gan fod hynny'n bwysig iawn wrth wneud gwin Coch. Hefyd, ble bo'n bosibl, mae gwindai yn defnyddio disgrychiant i symud sudd o'r wasgfa i danciau, gan drin y gwin mewn modd mor fwyn â phosibl.



3 Camau nesaf

1. Trafod y defnydd o gaseggi barrigue Derw Rydym ni'n defnyddio'r 225ltr ar hyn o bryda'r opsiwn o dreialu'r meintiau 440ltr.
2. Gan ein bod yn cynllunio plannu o'r newydd, adolygu'r rhywogaethau a'r cynllun plannu, nifer y gwinwydd fesul erw.
3. Ymchwilio i'r broses dadansoddi'r grawnwin a ddefnyddir adeg cynaefu a gweld a yw'r cyfleuster hwnnw ar gael yng Nghymru.

4 Negeseuon Allweddol i'r diwydiant

1. Rydym ni i gyd yn wynebu'r un heriau
2. Cyn plannu, ymchwiliwch i'r rhywogaethau yr ydych wedi dewis eu plannu o ran bywiogrwydd a chyfaint fan y bydd hynny'n nodi'r pellter plannu a maint y cnwd.
3. Mae cydbwysedd / iechyd y pridd yn flaenoriaeth
4. Mae defnyddio Derw yn rhan allweddol o gynhyrchu gwin coch.
5. Mae modelau cydweithredol yn gweithio a gall cynhyrchwyr unigol gynnal eu brand eu hunain
6. Ansawdd yn y winllan a'r gwindy yw'r ffactor pwysicaf

